

Dyfarnu Grantiau a Chymorth Ariannol: Polisi a Gweithdrefn ar gyfer ystyried y Gymraeg

Cyflwyniad

Mae gan Brifysgolion Cymru ddyletswydd statudol i gydymffurfio â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017 a sefydlwyd o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae Safonau'r Gymraeg yn esbonio sut y disgwylir i Brifysgol Aberystwyth ddarparu gwasanaethau penodol yn Gymraeg, gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae'r polisi a'r gweithdrefnau a amlinellir yn y ddogfen hon wedi ei gyhoeddi yn unol â gofynion Safon 100 i gynorthwyo Adrannau Academaidd a Gwasanaethau Proffesiynol i gydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg mewn perthynas â grantiau a chymorth ariannol a roddir gan y Brifysgol.

Fel sefydliad dwyieithog, mae'r polisi hwn yn gwreiddio'r Gymraeg o fewn ein prosesau dyrannu grantiau a chymorth ariannol. Mae'r Brifysgol wedi ymrwmo i ddatblygu a hybu cydraddoldeb ac amrywioldeb ym mhob agwedd ar ein hymarfer a'n gweithgareddau. Ein nod yw gweithio ac astudio, gan ddarparu diwylliant cynhwysol, heb wahaniaethu, ac arddel gwerthoedd parch, urddas a chwarteisi. Mae gan bawb yr hawl i gael eu trin yn unol â'r gwerthoedd hyn.

Safonau'r Iaith Gymraeg

Gweler **Atodiad 1** ar gyfer geiriad safonau 75-79 a 100.

Mae'r safonau'n gosod dyletswydd ar y Brifysgol i:

- Gyhoeddi dogfennau sy'n ymwneud â cheisiadau am grant a chymorth ariannol yn Gymraeg.
- Sicrhau nad yw ceisiadau a dderbynnir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na cheisiadau Saesneg, a chyhoeddi datganiad yn cadarnhau hyn ar wahoddiadau.
- Hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg mewn cyfweiliadau sy'n rhan o'r broses ymgeisio, a gohebu ag ymgeiswyr yn Gymraeg os derbyniwyd y cais yn Gymraeg.
- Cyhoeddi polisi ar ddyfarnu grantiau neu gymorth ariannol sy'n ystyried:
 - (a) pa effaith y byddai'r penderfyniad i ddyrannu'r grant yn ei chael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol.
 - (b) sut y gellid gwneud penderfyniad i gynyddu'r effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg neu i leihau unrhyw effeithiau negyddol ar y Gymraeg.

Sut mae'r gofynion yn berthnasol i Brifysgol Aberystwyth?

Rhaid ystyried gofynion Safonau'r Gymraeg yn ystod y broses o ddyfarnu grantiau neu gymorth ariannol gan Brifysgol Aberystwyth. Ceir [ffurflen Ardrawiad Effaith \(Grantiau\)](#) fer yn **Atodiad 2**, y dylid ei chwblhau ar gyfer pob cynllun grant / cymorth ariannol a roddir gan Brifysgol Aberystwyth.

Gweler [Atodiad 3](#) sy'n cynnwys rhestr wirio Safonau'r Gymraeg ar gyfer pob grant neu gymorth ariannol.

Beth yw grant neu gymorth ariannol?

Mae Cod Ymarfer drafft Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) yn nodi:

“Fel arfer, mae ‘grant’ yn drosglwyddiad parhaol o arian i berson nad oes rhaid ei dalu’n ôl neu ei ddychwelyd. Mae’r term ‘grant’ yn cynnwys unrhyw gymorth y mae corff yn ei roi i berson at brosiect neu ddiben penodol. Gan amlaf, dim ond rhan o gyfanswm costau y mae grant yn talu amdano. Maent fel arfer yn cael eu defnyddio yn unol â thelerau ac amodau penodol.”

Mae’r ddogfen hefyd yn nodi *“Gall y term ‘cymorth ariannol’ gynnwys budd-dal, arian ysgoloriaeth, benthyciad, neu fwrsari fel rhai esiamplau ond nid yw’n cynnwys swm o arian sy’n cael ei roi i berson drwy broses gaffael.”*

Cwmpas y Polisi hwn

Mae'r polisi yn berthnasol i brosesu a dyfarnu grantiau neu gymorth ariannol gan Brifysgol Aberystwyth i fyfyrwyr, staff neu'r cyhoedd. Nid yw'r polisi yn berthnasol i gaffael gwasanaethau, anrhegion, rhoddion, gwobrau, marchnata a noddi, nac i geisiadau i ffynonellau cyllid allanol. Nid yw'r polisi hwn yn berthnasol i grantiau a roddir i Brifysgol Aberystwyth.

Mae'r grantiau a'r cymorth ariannol perthnasol yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i:

- Ysgoloriaethau a Bwrsariaethau Prifysgol Aberystwyth.
- Cymorth ariannol i fyfyrwyr.
- Grantiau i Undeb y Myfyrwyr.
- Grantiau Ymchwil a roddir gan Brifysgol Aberystwyth.

Mae'r polisi yn ymwneud â phob grant neu gymorth ariannol perthnasol gan Brifysgol Aberystwyth waeth beth fo'u swm.

Bydd effaith grantiau a chymorth ariannol ar y Gymraeg yn cael ei asesu ar gyfer cynlluniau cyfan yn hytrach nag ar gyfer pob cais unigol.

Bydd yr [Asesiadau Ardrawiad Effaith \(atodiad 2\)](#) yn helpu i nodi cyfleoedd a chamau gweithredu er mwyn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg, er enghraifft (a) sicrhau bod gwybodaeth am ysgoloriaethau cyfrwng Gymraeg ar gael.

- (b) darparu gwybodaeth am hyfforddiant dysgu Cymraeg neu gymdeithasau Cymraeg.
- (c) gwneud ymgeiswyr yn ymwybodol o wasanaethau cymorth a lles cyfrwng Cymraeg.

Gweler [Atodiad 4](#) ar gyfer enghreifftiau o'r ffactorau y gellid eu hystyried wrth nodi effeithiau posibl ar y Gymraeg.

Mae [Dogfen gyngor arfer da Comisiynydd y Gymraeg](#) yn esbonio

Effeithiau positif yw rhai sy'n golygu bod cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg, bod y Gymraeg yn fwy amlwg, neu nad oes unrhyw rwystrau ychwanegol i ddefnyddio'r Gymraeg, gyda deilliannau sydd o leiaf cystal.

Effeithiau andwyol yw rhai sy'n golygu bod llai o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, bod y Gymraeg yn llai amlwg, neu fod pobl sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn wynebu mwy o rwystrau neu ddeilliannau llai ffafriol na phobl sy'n defnyddio'r Saesneg.

Swyddogaethau a Chyfrifoldebau

Penaethiaid Adrannau: Sicrhau fod staff sy'n gyfrifol am gynlluniau grantiau yn ymwybodol o'r polisi a'r angen i gwblhau [asesiad ardrawiad effaith \(Grantiau\)](#) (**atodiad 2**).

Staff sy'n gyfrifol am ddyrannu grantiau/cymorth ariannol: Cwblhau [ardrawiad effaith ar y Gymraeg](#) (**atodiad 2**) ar gyfer pob cynllun grant ac anfon copi i Ganolfan Gwasanaethau'r Gymraeg.

Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg: Sicrhau fod staff sy'n gyfrifol am gynlluniau grantiau yn ymwybodol o'r polisi a chydweithio ag adrannau ar gwblhau [asesiad ardrawiad effaith ar y Gymraeg](#) (**atodiad 2**). Bydd y Ganolfan hefyd yn gyfrifol am gadw copïau o'r asesiadau ardrawiad effaith.

Gweithdrefnau

Pan fydd cynllun grant neu gymorth ariannol yn cael ei chyflwyno, neu ei hadolygu, bydd yn ofynnol i adrannau gwblhau [Asesiad Ardrawiad Effaith ar y Gymraeg \(Atodiad 2\)](#) i gefnogi eu penderfyniadau. Cysylltwch â [Chanolfan Gwasanaethau Cymraeg](#) os oes angen unrhyw gymorth arnoch i gwblhau eich asesiad ardrawiad effaith.

Ffurflenni cais

Ar gyfer pob grant a chymorth ariannol sydd yn gofyn i ymgeiswyr gwblhau ffurflen gais, rhaid cyhoeddi'r ffurflen yn Gymraeg a'n Saesneg a chynnwys cwestiwn er mwyn sefydlu dewis iaith:

<i>Hoffech dderbyn gohebiaeth gennym yn</i> <input type="checkbox"/> <i>Gymraeg,</i> <input type="checkbox"/> <i>Saesneg,</i> <input type="checkbox"/> <i>Ddwyieithog</i>	<i>Would you like to receive correspondence in</i> <input type="checkbox"/> <i>Welsh,</i> <input type="checkbox"/> <i>English,</i> <input type="checkbox"/> <i>Bilingual</i>
--	---

Rhaid i ffurflenni cais neu wahoddiadau / hysbysebion gynnwys y datganiad rhagweithiol canlynol:

<i>Croeso i chi wneud cais yn Gymraeg neu'n Saesneg a bydd pob cais a gyflwynir yn cael eu trin yn gyfartal. Croeso i chi gyfathrebu gyda ni yn Gymraeg neu'n Saesneg.</i>	<i>We welcome applications in Welsh or English and any application submitted will be treated equally. You are welcome to communicate with us in Welsh or English.</i>
--	---

Os cyhoeddir fersiynau Cymraeg a Saesneg y ffurflen gais fel dogfennau ar wahân, bydd y datganiad canlynol yn cael eu cynnwys ar y ffurflen Saesneg.

<i>Mae'r ffurflen hon ar gael yn Gymraeg</i>	<i>This form is available in Welsh.</i>
--	---

Dogfennaeth a Chanllawiau

Rhaid cyhoeddi'r holl ganllawiau a dogfennau ategol yn Gymraeg. Rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg o'r dogfennau ar yr un pryd a rhaid eu trin yn gyfartal. Os cyhoeddir y fersiynau Cymraeg a Saesneg fel dogfennau ar wahân, sicrhewch fod y datganiad canlynol wedi'i gynnwys ar y fersiwn Saesneg.

<i>Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg</i>	<i>This document is available in Welsh.</i>
---	---

Gohebiaeth, ceisiadau am wybodaeth ychwanegol a chyfweliadau

Bydd unrhyw ohebiaeth fel rhan o'r broses asesu yn unol â dewis iaith yr ymgeisydd fel y cofnodir yn y ffurflen gais.

Os oes cyfweliadau neu gyfarfodydd fel rhan o'r broses asesu, caiff y cynnig rhagweithiol canlynol i ymgeiswyr ddefnyddio'r Gymraeg ei gynnwys mewn gwahoddiadau cyfweliad/cyfarfod.

<i>Mae croeso i chi defnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod. Er mwyn ein helpu ni drefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd os bydd angen, rhowch wybod a fyddai'n well gennych ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg yn y cyfarfod. TICIWCH: Os byddaf yn siarad yn y cyfarfod, gwell gennyf gyfrannu yn:</i>	<i>You are welcome to use Welsh or English in the meeting. To assist us in providing a simultaneous translation service, if necessary, please confirm whether you would prefer to use Welsh or English at the meeting. PLEASE TICK: If I speak at the meeting, I would prefer to contribute in: [] Welsh</i>
--	---

[] Gymraeg
[] Saesneg

[] English

Os oes angen gwasanaeth [cyfieithu ar y pryd](#) (o'r Gymraeg i'r Saesneg), dylid cysylltu â [Chanolfan Gwasanaethau'r Gymraeg](#) i drefnu.

Asesiad a Phenderfyniadau

Pan fyddwch yn gwneud penderfyniadau mewn perthynas â dyfarnu grant neu gymorth ariannol, rhaid i chi ystyried y materion canlynol. Mae'r rhain yn berthnasol i bob grant a roddir gan Brifysgol Aberystwyth, hyd yn oed os nad oes ffurflen gais am grant.

*(a) **pa effeithiau**, os o gwbl (a pha un a yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol), y byddai dyfarnu grant neu ddarparu cymorth ariannol yn eu cael ar—*

- (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a*
- (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;*

*(b) **sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad** (er enghraifft, drwy osod amodau) fel y byddai'n cael **effeithiau positif**, neu effeithiau mwy positif, ar—*

- (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a*
- (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;*

*(c) **sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad** (er enghraifft, drwy osod amodau) fel **na fyddai'n cael effeithiau andwyol**, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar —*

- (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a*
- (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;*

*(ch) a oes angen ichi **ofyn i'r ymgeisydd am grant am unrhyw wybodaeth ychwanegol** er mwyn eich cynorthwyo i asesu effaith dyfarnu grant neu ddarparu cymorth ariannol ar—*

- i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a*
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.*

Telerau ac Amodau

Yn dilyn cynnal yr ardrawiad effaith, sicrhewch fod unrhyw amodau a roddir er mwyn cynyddu'r effaith bositif ar y Gymraeg hefyd yn cael eu cynnwys yn y Telerau ac Amodau.

Dylid nodi unrhyw gamau pellach i gynyddu'r effaith gadarnhaol ar y Gymraeg ar gyfer cynlluniau grantiau/cymorth yn y [ffurflen asesu](#) (**Atodiad 2**).

Manylion Cyswllt

Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg canolfangymraeg@aber.ac.uk

Dylan Hughes, Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg dyh8@aber.ac.uk

Lowri Angharad Jones, Swyddog Datblygu Gwasanaethau'r Gymraeg lwj@aber.ac.uk

Atodiad 1

Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i grantiau a chymorth ariannol.

75	Rhaid i unrhyw ddogfennau yr ydych yn eu cyhoeddi sy'n ymwneud â cheisiadau am grant neu gymorth ariannol gael eu cyhoeddi yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin fersiwn Gymraeg o'r dogfennau hynny yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohonynt.
76	Pan fyddwch yn gwahodd ceisiadau am grant neu gymorth ariannol, rhaid ichi ddatgan yn y gwahoddiad y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg ac na fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.
76A	Rhaid ichi beidio â thrin ceisiadau am grant neu gymorth ariannol a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na cheisiadau a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cael ceisiadau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i ymgeiswyr am benderfyniadau).
78	Os byddwch yn cael cais am grant neu gymorth ariannol yn Gymraeg, a bod angen cyfweled ag ymgeisydd fel rhan o'ch asesiad o'r cais rhaid ichi— (a) cynnig darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg er mwyn i'r ymgeisydd allu defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, a (b) os yw'r ymgeisydd yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd at y diben hwnnw (oni bai eich bod yn cynnal y cyfweiliad yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).
79	Pan fyddwch yn rhoi gwybod i ymgeisydd beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chais am grant neu gymorth ariannol, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y cais yn Gymraeg.
100	Rhaid ichi lunio a chyhoeddi polisi ar ddyfarnu grantiau neu ddarparu cymorth ariannol (neu, pan fo'n briodol, ddiwygio polisi sydd eisoes yn bodoli) sy'n ei gwneud yn ofynnol ichi ystyried y materion a ganlyn pan fyddwch yn gwneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu grant neu ddarparu cymorth ariannol— (a) pa effeithiau, os o gwbl (a pha un a yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol), y byddai dyfarnu grant neu ddarparu cymorth ariannol yn eu cael ar— (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; (b) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau) fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar— (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; (c) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau) fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar — (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; (ch) a oes angen ichi ofyn i'r ymgeisydd am grant am unrhyw wybodaeth ychwanegol er mwyn eich cynorthwyo i asesu effaith dyfarnu grant neu ddarparu cymorth ariannol ar— i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Atodiad 2

Mae'r templed canlynol ar gyfer asesu'r effeithiau ar y Gymraeg yn seiliedig ar [Dempled Comisiynydd y Gymraeg](#). Rhaid ei gwblhau ar gyfer pob cynllun grant a roddir gan y Brifysgol. Bydd yr asesiad fel arfer yn cael ei gwblhau ar sail y cynllun cyfan.

Templed ar gyfer asesu'r effeithiau ar y Gymraeg		
Enw'r grant neu gymorth ariannol		
Rhan 1: Adnabod effeithiau ar y Gymraeg		
	Effeithiau cadarnhaol	Effeithiau andwyol
Beth fyddai effeithiau dyfarnu'r grant neu gymorth ariannol ar gyfleoedd i ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg?		
Beth fyddai effeithiau dyfarnu'r grant neu gymorth ariannol ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?		
Rhan 2: Nodi gwybodaeth ychwanegol		
A oes angen gwybodaeth ychwanegol i helpu gyda'r penderfyniad?	OES []	NAC OES []
Rhan 2: Gwneud a gweithredu'r penderfyniad		
Sut y gellid addasu'r penderfyniad i gynyddu effeithiau positif ar y Gymraeg?		
Sut y gellid addasu'r penderfyniad i leihau effeithiau negyddol ar y Gymraeg?		
Rhestrwch unrhyw gamau a gymerwyd gan Brifysgol Aberystwyth (cynllun cyfan) neu delerau ac amodau sydd wedi ei gynnwys ar gyfer yr ymgeisydd (asesiad grant unigol)		
<i>Rhaid i unrhyw amodau a'u cofnodir yn y ffurflen hon gael eu cofnodi hefyd yn nhelerau ac amodau'r grant/cymorth ariannol a rhaid i'r ymgeisydd fod yn ymwybodol ohonynt.</i>		
Mae rhestr o ffactorau i'w hystyried, ac amodau posibl, ar gael ar Atodiad 4 o'r Grantiau a Chymorth Ariannol: Polisi a Gweithdrefn o ran Ystyried y Gymraeg		
Am gyngor pellach cysylltwch â Chanolfan Gwasanaethau'r Gymraeg canolfangymraeg@aber.ac.uk		

Atodiad 3

Rhestr wirio Safonau'r Gymraeg ar gyfer grantiau / cymorth ariannol.

Cam Gweithredu	Wedi ei Weithredu ✓ x
Cyhoeddwyd yr holl ddeunyddiau sy'n ymwneud â'r grant neu gymorth ariannol yn Gymraeg ar yr un pryd (dogfennau cyfarwyddyd, telerau ac amodau, hysbysebion, gwybodaeth, ffurflen gais)	
Mae'r ffurflen gais (os yw'n berthnasol) ar gael yn Gymraeg, ac mae gan yr adran brosesau ar waith i sicrhau bod ceisiadau a dderbynnir yn Gymraeg yn cael eu trin yn gyfartal.	
Mae'r ffurflen gais yn cynnwys cwestiwn ynghylch dewis iaith (gweler tudalen 3) gan gynnwys dewis iaith mewn cyfweiliadau (os yw'n berthnasol)	
Mae'r frawddeg ganlynol wedi'i chynnwys yn y ffurflen gais Saesneg (lle mae ar wahân i'r fersiwn Gymraeg). <i>Mae'r ffurflen hon ar gael yn Gymraeg</i> <i>This document is available in Welsh</i>	
Mae'r ffurflen gais (os yw'n berthnasol) yn cynnwys datganiad rhagweithiol ynghylch y Gymraeg (gweler tudalen 3)	
Mae asesiad wedi'i gwblhau ar gyfer y grant neu'r cynllun grant sy'n nodi (a) unrhyw effaith ar y Gymraeg (cadarnhaol, negyddol neu'r ddau) (b) a ellir diwygio'r penderfyniadau (e.e. drwy amodau) i gynyddu'r effaith gadarnhaol ar y Gymraeg neu i leihau unrhyw effaith andwyol bosibl ar y Gymraeg. Dylid cyflwyno cofnod o'r asesiad i Ganolfan Gwasanaethau'r Gymraeg canolfangymraeg@aber.ac.uk	
Yn dilyn yr asesiad, mae unrhyw gamau neu amodau pellach wedi'u cynnwys yn y llythyr cynnig a'r telerau ac amodau (os yw'n berthnasol)	

Atodiad 4

Mae [Dogfen cyngor arfer da Comisiynydd y Gymraeg](#) yn rhestrï'r enghreifftiau canlynol o ffactorau y gellid eu hystyried wrth nodi effaith ar y Gymraeg. Nodir y rhestr isod fel enghreifftiau ac efallai na fyddant yn berthnasol i bob grant. Cysylltwch â Chanolfan Gwasanaethau'r Gymraeg i drafod canolfangymraeg@aber.ac.uk

Effeithiau uniongyrchol

- A fydd modd defnyddio'r Gymraeg mewn elfennau cyhoeddus o'r gweithgaredd, ac wrth gyfathrebu â'r trefnwyr?
- A fydd y Gymraeg yn cael ei defnyddio wrth hybu a hysbysebu'r gweithgaredd?
- A fydd deunyddiau sy'n cael eu cynhyrchu yn sgil y gweithgaredd ar gael yn Gymraeg?
- A fydd y Gymraeg o leiaf yr un mor amlwg â'r Saesneg o ran deunyddiau, arwyddion, logos, cyhoeddiadau sain ac ati sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd?
- A fydd y gweithgaredd yn cael effaith ar ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth pobl o faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg?

Effeithiau anuniongyrchol

- A fydd y gweithgaredd yn cael effaith ar gynladwyedd cymunedau lle mae'n bwysig gweld twf neu gysondeb o ran nifer siaradwyr a defnydd o'r Gymraeg, er enghraifft yn sgil effaith ar yr economi, cynllunio, addysg neu gyfleoedd cymdeithasol?
- A fydd y gweithgaredd yn cael effaith ar y nifer o blant sy'n derbyn addysg Gymraeg?
- A fydd y gweithgaredd yn arwain at greu cyfleoedd gwaith i siaradwyr Cymraeg?
- A fydd y gweithgaredd yn arwain at alluogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith?
- A fydd y gweithgaredd yn arwain at alluogi ac ysgogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg y gymunedol neu yn y teulu?

Gwybodaeth ychwanegol y gellir holi i asesu effaith y cais yn ei gyfanrwydd.

- Ydych chi wedi ystyried beth fydd effeithiau'r gweithgaredd ar y Gymraeg? Beth fydd yr effeithiau positif ac andwyol?
- Sut fyddwch chi'n mynd ati i gynyddu effeithiau positif ar y Gymraeg, a lleihau'r effeithiau andwyol?
- Oes gennych chi ddigon o staff neu wirfoddolwyr i alluogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg?
- Ydych chi wedi trefnu bod unrhyw ddeunyddiau ar gael yn Gymraeg?
- Ydych chi wedi cynnwys unrhyw gostau ychwanegol ar gyfer darpariaeth Gymraeg yn eich cyllidebau?
- Sut fyddwch chi'n sicrhau ansawdd eich darpariaeth Gymraeg?
- Pa brofiad blaenorol sydd gennych o gyflawni gweithgaredd sy'n cael effeithiau positif, a ddim yn cael effeithiau andwyol, ar y Gymraeg?
- Oes gennych chi unrhyw ddata sy'n dangos sut mae'ch gweithgareddau blaenorol wedi effeithio ar y Gymraeg?

Amodau safonol y gallech eu gosod ar gyfer pob grant

- Cynnig gwasanaethau penodol yn Gymraeg, e.e. croesawu pobl, galluogi defnyddio'r

- Gymraeg ar y ffôn, cyhoeddiadau sain, gohebu yn Gymraeg, cynnig cwrs yn Gymraeg
- Cyhoeddi deunyddiau yn Gymraeg, e.e. gwefan, dogfennau, arwyddion, neu gynnyrch creadigol y prosiect
 - Targedu siaradwyr Cymraeg wrth hybu a hysbysebu gweithgaredd
 - Sicrhau bod gweithgaredd yn cael ei gynnal mewn lleoliadau daearyddol sy'n cefnogi defnyddio'r Gymraeg
 - Datblygu a chadw at gynllun hybu'r Gymraeg [busnesau ac elusennau]
 - Cydymffurfio â safonau'r Gymraeg
 - Sicrhau bod capasiti adnoddau dynol neu gyllideb addas ar gael i alluogi darpariaeth Gymraeg
 - Darparu data neu dystiolaeth benodol ynghylch effeithiau'r grant ar y Gymraeg (gweler isod)